


Gwasanaeth Cynllunio Wreccsam

siarter cwsmeriaid

Hydref 2014



Lles Cymunedol a Datblygu Siarter Cwsmeriaid y Gwasanaeth Cynllunio Hydref 2014

Y Gwasanaeth Cynllunio

Mae cynllunio yn ymwneud â sut mae pobl yn gwneud penderfyniadau am ddyfodol ein trefi, pentrefi a chefn gwlad. Pan fo rhywun yn dymuno rhoi estyniad ar dŷ neu ddatblygu canolfan siopa Gwasanaeth Cynllunio'r Cyngor sy'n gyfrifol am benderfynu a ddylid rhoi caniatâd i hynny fwrw ymlaen. Hefyd mae angen i ni warchod yr amgylchedd naturiol ac ardaloedd hanesyddol i genhedloedd y dyfodol eu mwynhau.

Rydym ni'n awyddus i chi fedru cymryd rhan mewn trafodaethau am unrhyw gynigion a allai effeithio arnoch chi, eich teulu neu lle rydych chi'n byw cyn i unrhyw benderfyniad gael ei wneud. Mae'n rhaid i ni wneud yn siwr bod datblygiadau newydd wedi eu dylunio fel bo pawb yn medru defnyddio neu elwa o'r cyfleusterau a'u bod yn cael eu hadeiladu'n ddiogel ac yn defnyddio ynni'n effeithlon.

Mae'r Gwasanaeth Cynllunio yma i'ch cynorthwyo chi i ymwneud rhagor â'r gweithgareddau a ganlyn:

- canfod a oes arnoch chi angen caniatâd cynllunio
- gwneud cais cynllunio
- gwneud cais am gymeradwyaeth rheoliadau cynllunio
- dod i wybod am gynlluniau datblygu lleol
- dweud eich dweud am gynigion datblygu newydd
- gwarchod ein hamgylchedd naturiol
- gwarchod ein hardaloedd hanesyddol

Yma i'ch cynorthwyo chi

Mae'r daflen hon yn esbonio sut rydym ni'n ceisio gwneud ein gwasanaeth yn haws i bawb ei ddefnyddio, yn cynnwys unigolion ag anabledd neu unigolion sy'n dymuno cyfathrebu â ni gan ddefnyddio iaith ac eithrio'r Gymraeg neu'r Saesneg. Rydym ni am wneud yn siwr eich bod chi'n medru deall ein gwybodaeth yn hawdd pan fyddwch chi'n cysylltu â ni, ac rydym am i chi fynegi eich barn am ein gwasanaeth a sut y gellid ei wella.

Ein nod ydy trin pobl yn deg fel y bydd pawb yn derbyn yr un lefel gwasanaeth beth bynnag eu hoedran, anabledd, rhyw, hil, ffydd neu gyfeiriadedd rhywiol. Byddwn yn trin pobl â pharch a byddwn yn ceisio ystyried anghenion pob grŵp o bobl, yn cynnwys y rhai sy'n gofalu am eraill, wrth gynllunio gwasanaethau newydd neu ddatblygu polisïau newydd. Byddwn yn edrych ar ein gweithdrefnau i wirio eu bod yn deg, ac os nad ydyn nhw, fe wnawn ni eu newid nhw.

Gwybodaeth hygyrch

Rydym ni'n sylweddoli bod gan bobl wahanol ffyrdd o fynegi eu hanghenion a'u teimladau felly fe wnawn ni geisio cyfathrebu yn y modd sy'n gweithio orau i chi ac rydym ni wedi cyflwyno mesurau i wneud ein gwasanaeth yn fwy hygyrch.

Gellir darparu gwybodaeth mewn gwahanol fformatau, yn cynnwys Braille, print bras, disg cyfrifiadur neu dâp sain. Cynhyrchir yr holl wybodaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg ond medrwn gyfieithu gwybodaeth i wahanol ieithoedd, yn cynnwys Iaith Arwyddion Prydain (BSL), ar gais i'r perwyl hynny.

Mae'r rhan fwyaf o'r wybodaeth ar gael ar wefan y Cyngor a gymeradwywyd gan Sefydliad y Deillion (RNIB). Golyga hyn y gellir cael mynediad at wybodaeth os ydych chi'n ddall neu â nam ar eich golwg gan ddefnyddio meddalwedd arbennig.

Rydym ni'n gweithio'n galed i wella ein gwasanaethau electronig fel bo gennych chi ddewis ynghylch sut i gysylltu â ni. Mae'n bosibl gwneud cais am ganiatâd cynllunio ar-lein neu ofyn am wybodaeth mewn gwahanol fformatau. Cewch edrych ar fanylion unrhyw gais cynllunio a dweud eich dweud am unrhyw gynnig newydd cyn gwneud penderfyniad. Rydym ni'n darparu dolenni i Borth Cynllunio'r Llywodraeth sy'n darparu'r holl wybodaeth y byddech chi angen ei wybod am gynllunio neu reoliadau adeiladu.

Mae'n bosibl gweld y wefan mewn llawer o ieithoedd Ewropeaidd, ond os oes arnoch chi angen rhagor o gymorth i gael mynediad at neu i ddeall ein gwybodaeth gadewch i ni wybod, os gwelwch yn dda.

Hybu cyfle cyfartal

Ein nod ydy darparu amgylchedd lleol sydd wedi'i ddylunio'n dda ac sy'n ddiogel. Byddwn yn hyrwyddo'r arfer o ddylunio cynhwysol, a fydd yn caniatáu i bawb ddefnyddio'r cyfleusterau a'r gwasanaethau a ddarperir mewn datblygiadau newydd heb allgau unrhyw un.

Mae'n ofynnol i ddatblygwyr cynlluniau mwy o faint ddangos eu bod wedi ystyried anghenion yr holl grwpiau o bobl wrth gyflwyno cynnig ar gyfer caniatâd cynllunio drwy gyflwyno Datganiad Dylunio a Mynediad. Bydd ein harolygwyr adeiladu yn gwneud yn siwr bod datblygiadau newydd yn cael eu hadeiladu'n ddiogel ac yn cydymffurfio â'r rheoliadau cyfredol megis Rhan M y Rheoliadau Adeiladu sy'n ei gwneud yn ofynnol darparu mynediad i'r anabl.

Byddwn yn hyrwyddo cyfle cyfartal, cysylltiadau hiliol da a'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig yn ein holl weithgareddau.

Polisi Cynllunio a chanllawiau

Rydym ni'n ceisio sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng annog datblygu a fydd yn darparu cartrefi, swyddi a gwasanaethau i'r gymuned a gwarchod nodweddion arbennig ein trefi, pentrefi a'n cefn gwlad. Eglurir ein polisiau a'n cynigion ar gyfer datblygu a defnyddio tir yng Nghynllun Datblygu Unedol Wrecsam y byddwn yn ei ddefnyddio wrth benderfynu a ellir caniatáu datblygiad ai peidio.

Mae nodiadau canllaw cynllunio lleol ar gael sy'n esbonio'n fanylach sut rydym ni'n gweithredu ein polisiau a byddant yn eich cynorthwyo i ddeall yr hyn sydd ei angen pan fyddwch yn cyflwyno cais i'w gymeradwyo.

Ymgynghori

Ar ôl i ni dderbyn cais cynllunio, neu cyn i ni lunio polisi newydd, byddwn yn gofyn i bobl am eu syniadau cyn gwneud penderfyniad. Ceisiwn gynnwys cymaint o bobl ag y bo modd fel nad oes unrhyw grwpiau na chymunedau'n cael eu hallgau o fynegi eu barn, er enghraifft, gofynnir i grŵp anabled lleol wneud sylwadau ar ddyluniad datblygiadau newydd er mwyn gwneud yn siwr ein bod ni'n ystyried anghenion pobl anabl.

Bydd modd gweld yr holl gynigion datblygu newydd yn ein swyddfeydd ac ar ein gwefan, lle gellir cyflwyno sylwadau ar-lein. Byddwn yn caniatáu digon o amser i bobl wneud sylwadau pan fyddwn ni'n ymgynghori. Enghraifft o hyn ydy 21 diwrnod i chi wneud sylwadau ar ddatblygiad arfaethedig a allai effeithio arnoch chi neu lle rydych chi'n byw.

Ni dderbynnir sylwadau o natur hiliol neu a allai sarhau neu achosi tramgwydd i unrhyw un ac mae gennym ni weithdrefnau i ymdrin â sylwadau o'r fath. Sylwer, bydd sylwadau a wneir am ddatblygiad arfaethedig yn ffurfio rhan o ffeil yr achos a gall y cyhoedd eu gweld yn ein swyddfa.

Rydym ni wrthi'n paratoi Cynllun Datblygu newydd ar hyn o bryd yn lle'r Cynllun sy'n bodoli a fydd yn rhoi cyfle i bawb gyflwyno syniadau am y ffordd y dylai'r Fwrdeistref yn ei chyfanwydd neu eich cymuned chi yn benodol ddatblygu yn y dyfodol. Byddwch yn medru dweud eich dweud am unrhyw bolisi newydd a allai effeithio arnoch chi neu lle rydych chi'n byw. Byddwn yn eich cynorthwyo i ddeall y broses trwy gyflwyniadau a gweithdai mewn cymunedau lleol ac fe wnawn ni ddefnyddio'r fforymau lleol a Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam (AVOW) ar gyfer grwpiau a dangynrychiolir. Mae Cynllun Datblygu Lleol Wrecsam yn cynnwys Cytundeb Cyflawni sy'n cynnwys cynllun cynnwys y gymuned sy'n amlinellu pwy y byddwn ni'n cysylltu â nhw, sut a phryd yn ystod y broses hon.

Byddwn yn cydnabod yr holl sylwadau ac yn eich hysbysu am yr hyn a benderfynwyd gan y Cyngor llawn.

Byddwn yn gofyn barn cwsmeriaid am y gwasanaeth a gawsant gennym ni yn rheolaidd. Os dywedir wrthym ni y dylem wella ein perfformiad mewn maes arbennig fe wnawn ni newid ein gweithdrefnau i geisio gwneud i hyn ddigwydd.

Ymdrin â'ch Cais Cynllunio

Rydym ni'n awyddus i gymaint o geisiadau ag y bo modd fod yn llwyddiannus ac rydym ni'n medru cynnig cyngor i chi cyn i chi gyflwyno eich cais i'w gymeradwyo. Byddwn yn cydnabod pob cais a dderbynnir, onibai bod eich cais yn anghyflawn, ac os felly fe wnawn ni eich cynorthwyo i wneud y newidiadau sy'n ofynnol.

Hysbysir am bob cais cynllunio fel bo unrhyw un y mae'r cynnig yn effeithio arno yn cael cyfle i wneud sylwadau cyn gwneud penderfyniad ar y cais cynllunio. Anfonir copi o'r cais at y Cyngor Cymuned ac rydym ni'n hysbysu eich Cynghorydd lleol hefyd. Gellir edrych ar fanylion ceisiadau cynllunio ar ein gwefan, ynghyd â chymorth ac arweiniad defnyddiol. Gellir edrych ar yr holl geisiadau cynllunio a'r cynlluniau yn ein swyddfa a bydd swyddog ar gael i roi cyngor i chi neu esbonio'r hyn a gynnigir yn fwy eglur.

Gellir trefnu i staff ymweld â'ch cartref os oes gennych chi gyfyngiadau difrifol ar eich symudedd. Rhaid gwneud cais am hyn.

Byddwn yn cydnabod derbyn unrhyw sylwadau o blaid neu yn erbyn cais a byddwn yn eu hystyried yn ofalus cyn gwneud penderfyniad. Os na fedrwn ni gytuno â'r pwyntiau a wnaed a thrafod datrysiad â'r ymgeisydd bydd y cais yn cael ei gyfeirio at Bwyllgor Cynllunio'r Cyngor am benderfyniad. Mae modd i chi anerch y Pwyllgor Cynllunio i esbonio eich safbwynt chi cyn iddyn nhw wneud penderfyniad. Fe wnawn ni eich hysbysu chi sut y gellir trefnu hyn.

Fe wnawn ni eich hysbysu chi am ein penderfyniad ac esbonio'n glir a ydy eich cais wedi'i gymeradwyo, ynghyd ag unrhyw amodau, neu fe wnawn ni roi rheswm clir pam y gwrthodwyd y cais. Byddwn yn cynnwys manylion am unrhyw hawl i apelio.

Rheoliadau Adeiladu

Ein nod ydy darparu amgylchedd adeiledig diogel ac iach sy'n hygyrch i bawb ac yn defnyddio ynni'n effeithlon. Byddwn yn eich cynorthwyo chi i ddeall yr hyn sydd ei angen i adeiladu eich prosiect mewn modd sy'n bodloni'r Rheoliadau Adeiladu. Bydd ein staff yn ymweld â'ch safle chi, yn cadw cofnodion manwl am eich gwaith ac yn darparu Tystysgrif Cwblhau Rheoliadau Adeiladu pan fyddwch chi wedi gorffen y prosiect. Rydym ni'n cynnig gwasanaeth wedi ei deilwra i ateb gofynion cynlluniau datblygu mawr.

Amddiffyn ein Hamgylchedd

Rydym ni wedi llunio mesurau i amddiffyn, gwella a chyfoethogi ein hamgylchedd leol megis Gorchmynion Gwarchod Coed, Cynlluniau Cyfoethogi Ardaloedd Cadwraeth neu Gynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth. Byddwn yn ymchwilio i'r holl fygythiadau i goed, gwrychoedd, bywyd gwylt, cynefinoedd neu adeiladau rhestredig mewn perygl ac yn gweithredu i atal niwed. Cynigir cyngor i'ch cynorthwyo â chais cynllunio ac rydym ni'n cynhyrchu ystod o nodiadau canllaw i'ch cynorthwyo i ddeall ein hamgylchedd naturiol ac adeiledig.

Sylwadau, canmoliaeth a chwynion gan gwsmeriaid

Rydym ni wedi ymrwymo i Ofal Cwsmeriaid ac rydym ni am wybod os oes gennych chi sylwadau i'w gwneud am ein gwasanaeth ni. Mae gennym ni weithdrefn effeithiol sy'n ymdrin â sylwadau, canmoliaeth a chwynion gan gwsmeriaid ac rydym ni'n eu defnyddio mewn modd cadarnhaol i wella ein gwasanaeth.

Os hoffech chi wneud cwyn mae gennym ni fesurau i ymdrin â chwyn yn effeithiol ac effeithlon. Bydd yn cael ei gydnabod cyn pen 5 diwrnod gwaith o'i dderbyn a dylech dderbyn ymateb ysgrifenedig llawn cyn pen 20 diwrnod gwaith. Os yw ymchwilio i'ch cwyn yn debygol o gymryd mwy na 20 diwrnod gwaith bydd y rheswm am yr oedi yn cael ei esbonio wrthyhych chi a byddwch yn cael adroddiadau cynnydd rheolaidd nes cyflwyno ymateb terfynol i chi.

Os nad ydych chi'n hapus â'n ymateb ni, neu os nad ydych chi wedi derbyn ymateb ysgrifenedig, cewch fynd â'ch cwyn i'r cam nesaf yn ein Gweithdrefn Cwynion. Cewch gopi o'r weithdrefn ar gais i'r perwyl hynny. Bydd hyn yn golygu adolygiad annibynnol a gynhelir gan y Swyddog Cwynion Corfforaethol.

Hefyd hoffem glywed gennych chi os:

- oes gennych chi unrhyw awgrymiadau ynghylch sut y medrwn ni wella ein gwasanaethau ni
- ydych chi'n cael unrhyw anhawster defnyddio unrhyw un o'n gwasanaethau ni
- hoffech chi ein canmol ni am wneud rhywbeth yn dda.

Gorfodaeth Cynllunio

Byddwn yn ymchwilio i gwynion a wneir gennych chi am ddatblygiad neu weithgareddau nad ydynt wedi cael caniatâd neu a ystyrir yn niweidiol i'r gymuned. Ein nod ydy sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng hawliau pobl i fwynhau eu heiddo a hawliau eu cymdogion a'r gymuned i gael lle gweddus i fyw ynddo. Byddwn yn gweithredu er budd y cyhoedd ond ni fedrwn ymyrryd mewn anghydfodau preifat rhwng unigolion neu lle nad ydy gweithgareddau'n torri cyfreithiau cynllunio. Byddwn yn ceisio canfod datrysiad

i reoli gweithgareddau a datblygu diawdurdod drwy drafod a negodi yn hytrach na chyflwyno rhybuddion cyfreithiol ond byddwn yn gwneud hyn fel y dewis olaf.

Rheolir y system orfodaeth cynllunio gan fframwaith cyfreithiol cymhleth. Yn aml ni fedrwn reoli'r amser mae'n ei gymryd i ddatrys achosion. Lle bo'r terfynau amser o dan ein rheolaeth ni rydym ni wedi ymrwymo i gadw atyn nhw'n effeithlon.

Cofrestrir pob cwyn, er y bydd y wybodaeth yn cael ei chadw'n gyffredinol ac nid i'w gweld gan y cyhoedd. Ni fyddwn yn datgelu pwy ydych chi. Lle cyflwynir cwyn dienw bydd ein hymchwiliadau wedi eu cyfyngu. Onibai bod ymweliad yn datgelu tystiolaeth glir o dorri rheolaeth adeiladu bydd yr ymchwiliad yn cael ei derfynu ar y pwynt hwnnw.

Os ydy eich cwyn chi'n galw am ymweliad â'r safle, ein nod ydy gwneud hyn cyn pen 5 diwrnod gwaith. Os ydy ein hymchwiliadau yn awgrymu y gallai tor-rheolaeth fod wedi digwydd, byddwn yn ysgrifennu at berchennog/meddiannydd y tir cyn pen 10 diwrnod gwaith. Bydd y llythyr yn esbonio'r hyn sy'n ymddangos yn anghywir a'r gweithredu arfaethedig. Os oes unrhyw amheuan am ffeithiau'r achos gallem anfon llythyr yn gofyn am ragor o wybodaeth. Bydd hyn yn esbonio pa wybodaeth sy'n ofynnol a'r cyfnod ar gyfer ymateb. Ac eithrio lle bo pryder sylweddol am amwynder, byddwn yn rhoi 28 diwrnod i'r perchennog/meddiannydd ymateb. Gallai hyn fod i unioni'r hyn sy'n annerbyniol neu gyflwyno cais am ganiatâd cynllunio. Byddwn yn anfon un llythyr atgoffa sy'n caniatáu 7 diwrnod ychwanegol, ac yna gellir gweithredu mewn modd sy'n gymesur â'r datblygiad neu'r gweithgaredd diawdurdod.

Ein nod ydy datrys 75% o ymchwiliadau cyn pen 12 wythnos. Bydd hyn yn caniatáu ar gyfer negodi'n fanwl, sy'n ofynnol yn y canllawiau a gyhoeddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mewn achosion syml ein nod ydy datrys 40% cyn pen pythefnos o dderbyn yr honiadau. Ceisiwn hysbysu cwynwyr am ein hymchwiliadau.

Taliadau

Mae'n rhaid talu am gyflwyno cais cynllunio a Rheoliadau Adeiladu. Bydd y swm yn amrywio yn dibynnu ar faint eich datblygiad chi ac mae wedi'i bennu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Nid ydym ni'n codi tâl am roi cyngor ond rydym yn codi ffi gweinyddol am gopïo lluniau mawr neu ddarparu map Arolwg Ordnans i'w gyflwyno â'ch cais. Mae'r Cynllun Datblygu Unedol ar gael fel dogfen wedi'i hargraffu neu mewn darnau wedi eu seilio ar gymunedau bach lle bynnag rydych chi'n byw, ac mae'r pris yn amrywio yn dibynnu ar yr hyn sy'n ofynnol gennych chi. Mae'r rhan fwyaf o'n gwybodaeth ar gael ar y wefan i'w darllen neu ei lawrlwytho am ddim.

Dangosir ein holl ffioedd ar y wefan ac fe'u hanfonir atoch chi pan fyddwch chi'n gofyn am ffurflen gais. Rydym ni'n derbyn sawl dull talu neu fe gewch chi wneud taliadau diogel ar-lein wrth gyflwyno eich cais cynllunio chi trwy ein gwefan.

Diogelu Data a chadw gwybodaeth

Byddwn yn diogelu eich gwybodaeth bersonol rhag cael ei datgelu dan ein polisi diogelu data, ond sylwch, pan fyddwch chi'n gwneud cais am ganiatâd cynllunio mae eich cais yn dod yn rhan o gofrestr gyhoeddus y gall y cyhoedd ei gweld yn ein swyddfeydd ni. Pan fyddwn ni'n cyhoeddi ceisiadau cynllunio ar ein gwefan fel rhan o'n hymgyngoriad, byddwn yn cael gwared o'ch manylion personol chi, fel eich rhif ffôn a'ch llofnod.

Byddwn yn ceisio cyhoeddi gymaint o wybodaeth ag y bo modd am ein gweithgareddau ond rydym ni wedi cyflwyno mesurau i ateb ceisiadau am wybodaeth ychwanegol.

Hyfforddiant ac Ymwybyddiaeth Staff

Mae'n bwysig ein bod ni'n gwirio o dro i dro bod ein nod o drin pobl yn deg yn cael ei gyflawni. Mae arnom angen eich cydweithrediad chi tra rydym ni'n cynnal ein hymarferion monitro fel y medrwn ddod i ddeall ein cwsmeriaid yn well, a fydd yn cynorthwyo i wella'r gwasanaeth i chi.

Hyfforddwyd ein holl staff i ymateb i anghenion gwahanol pobl sy'n defnyddio ein gwasanaeth ni, er enghraifft, trwy esbonio peth o'n gwybodaeth neu rai o'n gweithdrefnau'n fwy eglur fel eich bod chi'n medru deall.

Amseroedd ymateb

Ein nod ydy ymateb i geisiadau am wasanaeth neu wybodaeth yn effeithiol ac effeithlon ac rydym wedi cyflwyno mesurau i gynorthwyo hyn i ddigwydd. Er enghraifft, byddwn yn cydnabod cais cynllunio dilys cyn pen 3 diwrnod gwaith neu'n gwneud penderfyniad ar fwyafrif y ceisiadau cynllunio cyn pen 8 wythnos.

Byddwn yn cydnabod pob llythyr cyn pen 5 diwrnod gwaith o'u derbyn ac yn ceisio rhoi ymateb llawn i fwyafrif yr ymholiadau (90%) cyn pen 20 diwrnod gwaith o'u derbyn.

Byddwn yn ceisio ateb y rhan fwyaf o alwadau ffôn (80%) cyn pen 15 eiliad a gwella ein canran o alwadau ffôn y rhoir y gorau iddyn nhw.

Ymweld â'n swyddfeydd

Rydym ni wedi ceisio gwneud ein swyddfeydd mor hygyrch ag y bo modd i bawb, yn cynnwys defnyddwyr cadair olwyn. Bydd staff Galw Wrecsam yn barod i ddarparu unrhyw gymorth sydd ei angen arnoch chi.

Sut i gysylltu â ni

Os oes gennych chi unrhyw sylwadau ynghylch sut y medrwn ni wella ein gwasanaeth, neu os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth mewn fformat sy'n gweddu i chi, mae croeso i chi gysylltu â ni yn y cyfeiriad isod:

- Pennaeth Lles Cymunedol a Datblygu
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
16 Stryt yr Arglwydd, Wrecsam LL11 1LG
- Rhif ffôn: 01978 298994
- E-bost: planning@wrexham.gov.uk
- Gwefan: www.wrexham.gov.uk/planning

Gall cwsmeriaid byddar neu drwm eu clyw gysylltu â'r adran yn uniongyrchol gan ddefnyddio gwasanaeth BT Typetalk – ffoniwch 018001 ac yna 01978 298994. Ar y llaw arall gall defnyddwyr ffôn testun gysylltu â'r prif switsfwrdd gan ddefnyddio'r rhif minicom - 01978 292130.

Mae'r daflen hon ar gael yn Saesneg.
Ffonwch 01978 298994 am eich copi.

Mae'r daflen hon ar gael mewn fformatau hygyrch.
Ffoniwch 01978 298994 am ragor o wybodaeth.

Hydref 2014

Canllawiau a fabwysiadwyd

Cynllun Datblygu Unedol Wreccsam
Nodiadau Canllaw Cynllunio Atodol
Cynllun Datblygu Lleol – Amserlen, Cynllun Cynhwys y Gymuned
Polisi Cwynion
Polisi Rhyddid Gwybodaeth
Polisi Iaith Gymraeg
Cynllun Cydraddoldeb Strategol

Arferion Da a gydnabyddir

Cydraddoldeb Anabledd, Cynllunio, Adeiladau a Strydoedd (DRA)
Egyddorion Dylunio Cynhwysol (CABE)
Datganiadau Dylunio a Mynediad (CABE)
Cod Ymarfer (RTPI)